Cofnodion cyfarfod rhif 92
Pwyllgor Cynghori Cymru
Cyfarfod hybrid ar 27 Chwefror 2024

**Yn bresennol**

| | |
|---|---|
| Robert Andrews | Cadeirydd |
| Angharad Evans | Aelod |
| Aled Eirug | Aelod |

**Hefyd yn bresennol**

| | |
|---|---|
| Jonathan Rose | Cyfarwyddwr, Ofcom Gogledd Iwerddon (Cyfarwyddwr Cymru dros dro) |
| Elinor Williams, | Pennaeth Materion Rheoleiddiol, Cymru, Ofcom |
| Meleri Evans | Rheolwr Materion Rheoleiddiol, Cymru, Ofcom |
| Joanna Davies | Uwch Gynghorydd yr Iaith Gymraeg, Ofcom Cymru |
| Liz Nash | Gweinyddwr, Ofcom Cymru |
| Rachel Burr | Aelod ar ran Cymru o'r Panel Defnyddwyr Gwasanaethau Cyfathrebu |

Cydweithwyr eraill yn Ofcom

**Ymddiheuriadau**

Ruth McElroy Aelod ar ran Cymru o'r Bwrdd Cynnwys

| Eitemau ar yr Agenda | Gweithredu |
|---|---|
| **1. Rhagarweiniad**<br><br>Croesawodd y Cadeirydd y rhai a oedd yn bresennol i gyfarfod rhif 92 Pwyllgor Cynghori Cymru. Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Ruth McElroy. | |
| **2. Datgan Buddiannau Aelodau – ar lafar**<br><br>Dim. | |
| **3. Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 28 Tachwedd a materion sy'n codi**<br><br>CYMERADWYWYD y cofnodion. | |
| 4. **Adroddiad y Cadeirydd – ar lafar**<br><br>Diolchodd y Cadeirydd i Gyfarwyddwr Cymru sy'n ymadael am ei chefnogaeth dros y pum mlynedd diwethaf a chroesawodd Jonathan Rose, Cyfarwyddwr Ofcom Gogledd Iwerddon a fydd yn gweithredu fel Cyfarwyddwr Cymru nes penodi rhywun yn ei lle (cyfweliadau wedi'u cynnal). Esboniodd JR fod y cyfrifoldebau'n cael eu rhannu gan Gyfarwyddwyr Gogledd Iwerddon a'r Alban a fydd yn darparu cymorth i dîm Cymru cyhyd ag y bo angen.<br><br>Dywedodd y Cadeirydd fod tri aelod newydd o Bwyllgor Cynghori Cymru wedi cael eu penodi a bod eu penodiadau'n cael eu ffurfioli ar hyn o bryd, gyda dyddiadau dechrau i'w | |

| Eitemau ar yr Agenda | Gweithredu |
|---|---|
| cadarnhau. Awgrymwyd y dylid trefnu diwrnod cynefino/hyfforddi yn y dyfodol agos ac y dylai hefyd fod yn agored i aelodau presennol y Pwyllgor. Staff Ofcom Cymru i gysylltu ag aelodau a chydweithwyr yn Llundain.<br><br>Hysbyswyd yr aelodau bod yr Aelod Bwrdd newydd ar gyfer Cymru wedi'i benodi ac y bydd cyhoeddiad yn cael ei wneud ddechrau mis Mawrth gyda'r aelod newydd yn mynychu ei gyfarfod Bwrdd cyntaf ym mis Mawrth.<br><br>Croesawodd y Cadeirydd Rachell Burr, Aelod newydd o'r Panel Defnyddwyr Gwasanaethau Cyfathrebu ar ran Cymru a ymunodd â'r Panel ym mis Ionawr. | Ofcom Cymru |
| **5. Y Diweddaraf: Aelod Bwrdd Ofcom ar ran Cymru**<br><br>Rhoddodd Cyfarwyddwr Gogledd Iwerddon y wybodaeth ddiweddaraf am weithgareddau'r Bwrdd yn absenoldeb yr Aelod o'r Bwrdd dros Gymru. Cyfarfu'r Bwrdd ar 7 Chwefror ac roedd y pynciau a drafodwyd yn cynnwys:<br><br>1) Dyfodol dosbarthu teledu<br><br>2) Cynhadledd Radio'r Byd<br><br>3) Materion post<br><br>4) Diogelwch Ar-lein – ymatebion cychwynnol i'r Bil Niwed Ar-lein – nodwyd bod rhywfaint o gynnydd wedi bod yn amlwg yn y diwydiant<br><br>5) Cymeradwyo penodiadau i Bwyllgor Cynghori Cymru<br><br>Cafwyd trafodaeth ar ddiogelwch ar-lein a phwysigrwydd rhwymedigaethau deddfwriaethol yng Nghymru. Roedd y Pwyllgor yn teimlo'n gryf y byddai'n fuddiol cael trafodaeth lawnach ar bob agwedd ar ddiogelwch ar-lein, deallusrwydd artiffisial ac ymwybyddiaeth o'r cyfryngau mewn perthynas â Chymru. Cadarnhaodd EW fod Ofcom yn cynnal digwyddiad ar 7 Mawrth gyda chydweithwyr o dimau Datblygu Polisi Technegol a Pholisi Diogelwch Ar-lein Ofcom i friffio swyddogion Llywodraeth Cymru. Mae croeso i aelodau ymuno. Bydd Ofcom Cymru hefyd yn trefnu dyddiad ychwanegol i'r Pwyllgor ei drafod. | PCC/ Ofcom Cymru |
| **6. Diweddariad – Aelod ar ran Cymru o'r Panel Defnyddwyr Gwasanaethau Cyfathrebu**<br><br>Roedd Aelod Cymru o'r Panel Defnyddwyr Gwasanaethau Cyfathrebu wedi cyflwyno papur o'r blaen ac wedi tynnu sylw at y materion allweddol canlynol:<br><br>• Bydd meysydd ffocws polisi ar gyfer y panel yn 24-25 oed yn cael eu rhannu'n fuan;<br>• Y Panel yn argymell trefnu ymgyrch genedlaethol i godi ymwybyddiaeth defnyddwyr i dynnu sylw at y risg i ddiogelwch a bywyd y cyhoedd ar ôl newid o PSTN i VoIP;<br>• Tynnodd RB sylw at bryder y Panel ynghylch fforddiadwyedd cyffredinol gwasanaethau cyfathrebu a'r effaith ar ddefnyddwyr yn enwedig gan fod tariffau cymdeithasol yn dal yn gymharol isel;<br>• Pryderon ynghylch crwydro gwrthdro yn effeithio ar ddefnyddwyr a gweithio gyda darparwyr cyfathrebiadau i roi gwybod i ddefnyddwyr;<br>• Pryder y Panel ynghylch effeithiau diffodd 2G/3G a'i niwed posibl i ddefnyddwyr. Maent hefyd yn poeni am lefel ymwybyddiaeth Llywodraeth Leol o sut y bydd hyn | |

| Eitemau ar yr Agenda | Gweithredu |
|---|---|
| yn effeithio ar ddefnyddwyr. Cytunodd yr aelodau y dylai Darparwyr Gwasanaethau Cyfathrebu ystyried cynnal ymgyrch ehangach i godi ymwybyddiaeth y cyhoedd;<br>• Mae trafodaethau'n parhau ynghylch newidiadau i wasanaethau post a'r effaith ar ddefnyddwyr;<br>• Mae'r meysydd ymchwil presennol yn ymwneud â thariffau cymdeithasol, iechyd, VoIP; anghenion telegyfathrebu microfusnesau. Mae Cadeirydd y Panel, Rick Hill, yn parhau i gynnal cyfarfodydd gyda gweision sifil a swyddogion y llywodraeth.<br>• Gohiriwyd Hyb Cymru ym mis Chwefror – y dyddiad nesaf yw 27 Mawrth.<br><br>Cytunodd RB i roi gwybod i'r aelodau ar ba ddyddiadau y bydd y dogfennau ymchwil yn cael eu cyhoeddi.<br><br>**Prif bwyntiau:**<br><br>o Ategodd Pwyllgor Cynghori Cymru bryder y Panel Defnyddwyr Gwasanaethau Cyfathrebu ynghylch cyfathrebu am gyflwyno VoIP.<br>o Roedd Pwyllgor Cynghori Cymru yn croesawu'r defnydd o'r Gymraeg mewn ymchwil i'r Panel Defnyddwyr Gwasanaethau Cyfathrebu. | RB |
| **7. Y Diweddaraf: Aelod ar ran Cymru o'r Bwrdd Cynnwys**<br><br>Roedd Aelod Cymru o'r Bwrdd Cynnwys eisoes wedi dosbarthu adroddiad diweddaru ac ystyriwyd bod pawb wedi'i ddarllen. Yn anffodus, ni allai fod yn bresennol yn y cyfarfod ond, yn ei habsenoldeb, trafododd yr Aelodau y canlynol:<br>• Nodwyd bod RMcE hefyd wedi tynnu sylw yn ei hadroddiad at yr angen i gael trafodaeth bellach ar rwymedigaethau cyfreithiol a rheoliadau diogelwch ar-lein. Mynegodd bryder bod gwaith ynghylch diogelwch ar-lein wedi tyfu'n sylweddol ond nid yw'n glir ble mae'r dadleuon polisi cyhoeddus yng Nghymru yn symud yr un mor gyflym â'r datblygiad hwn. Mae hi'n awgrymu y bydd Pwyllgor Cynghori Cymru efallai eisiau ymgysylltu mwy â rhanddeiliaid ac ystyried sut mae cynghori Ofcom yng Nghymru ynghylch defnyddio ei arbenigedd i helpu i lywio'r maes hwn o bolisi cyhoeddus yng Nghymru.<br>• Unwaith eto, trafododd yr aelodau ffurf digwyddiad i randdeiliaid a pha fath o gynulleidfa/cynrychiolwyr y dylid eu gwahodd.<br>• Rhoddodd staff Ofcom wybod am ymgynghoriadau arfaethedig ym mis Mai ar amddiffyn plant ac am sioe deithiol Llenyddiaeth Cyfryngau ym mis Mehefin. Cytunwyd y gallai'r rhain fod yn gyfleoedd da i gynyddu ymwybyddiaeth.<br>• Trafododd yr aelodau ei heitem yn ymwneud â chynnwys GB News a chwynion parhaus ynghylch didueddrwydd. Mae hwn yn fater byw a bydd JR yn trefnu i dîm polisi Ofcom roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau. | JR |
| **8. Y Diweddaraf: Polisi Cyhoeddus**<br>Roedd papur diweddaru wedi'i ddosbarthu i'r aelodau yn flaenorol. Ymunodd Kate Biggs â'r cyfarfod a thynnodd sylw at nifer o ddatblygiadau Seneddol yn cynnwys diweddariadau ar bynciau allweddol: | |

| Eitemau ar yr Agenda | Gweith redu |
|---|---|
| • Newidiadau staffio mewn adrannau Llywodraeth sy'n gweithio gydag Ofcom.<br>• Y diweddaraf am faterion darlledu yn ymwneud â:<br>- Bil y Cyfryngau – ail ddarlleniad yn Nhŷ'r Arglwyddi ddechrau mis Mawrth<br>- y Bil Radio<br>- Gwerthu'r Telegraph<br>- Materion yn ymwneud â thelegyfathrebu gan gynnwys rheoli'r broses o ddiffodd PTSN a 3G.<br>- Diogelwch Ar-lein – mae'r ymgynghoriad nesaf ar niwed anghyfreithlon wedi'i drefnu ar gyfer mis Mai ar Amddiffyn Plant<br>- Adolygiadau rheoleiddio sydd ar y gweill – mae Ofcom yn parhau i ymgysylltu â'r Llywodraeth.<br>• Unwaith eto, mynegodd yr aelodau eu barn wrth KB fod angen cynyddu ymwybyddiaeth o Niwed Ar-lein ac roeddent wedi awgrymu trefnu digwyddiad i randdeiliaid mewn partneriaeth â Chyrff eraill o bosibl.<br>• Mewn perthynas â chwestiwn ynghylch GB News, dywedodd KB fod Ofcom yn rhoi tystiolaeth i ymchwiliad newyddion Tŷ'r Arglwyddi yn dilyn nifer o gwynion. Bydd darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yn ymddangos hefyd. Cododd aelod bryder ynghylch pa mor araf yn ôl pob golwg yr ymdrinnir â chwynion. Pwysleisiodd KB fod angen i Ofcom fod yn rheoleiddiwr rhesymol a chymesur. | |
| **9. Adroddiad: Datblygiadau Diweddar yng Nghymru**<br>Roedd adroddiad diweddaru wedi cael ei ddosbarthu'n flaenorol gan dîm Ofcom Cymru a thynnodd Meleri Evans sylw at bynciau allweddol a oedd yn cynnwys:<br>- Y Digwyddiad Cynllun Gwaith diweddar yng Nghaerdydd, y daeth dros 30 o randdeiliaid iddo.<br>- Diweddariad ar gyfarfod gyda Hannah Blythyn AS ynghylch y gwasanaeth post lle cododd bryderon ynghylch oedi cyn danfon llythyrau apwyntiad gan Fyrddau Iechyd at ddefnyddwyr.<br>- Y wybodaeth ddiweddaraf am y penderfyniad i ganiatáu i Radio Cymru Dau ymestyn ei oriau.<br>Roedd gan yr aelodau ddiddordeb yn yr eitem a oedd yn rhoi gwybod am fandaliaeth ddiweddar ar offer telathrebu Oggi a rhoddodd EW y wybodaeth ddiweddaraf iddynt am y sefyllfa ddiweddaraf ond pwysleisiodd nad oedd yn fater i Ofcom.<br>• Cafwyd trafodaeth ar berthynas bresennol Ofcom â Chomisiynydd y Gymraeg. Rhoddodd EW ac RL y wybodaeth ddiweddaraf i'r aelodau am faterion cydymffurfio cyfredol gan bwysleisio fod darn o waith mewnol ar y gweill i dynnu sylw at ymwybyddiaeth o Safonau'r Gymraeg yn Ofcom. Dywedasant fod Ofcom wedi cwrdd â swyddogion CyG i drafod amrywio rhai Safonau a'r ffordd orau o weithio gyda'i gilydd i osgoi torri amodau yn y dyfodol. Maent yn aros am ymateb.<br>**Prif bwyntiau:** | |

| Eitemau ar yr Agenda | Gweithredu |
|---|---|
| ○ Argymhellodd Pwyllgor Cynghori Cymru y dylai Ofcom fod yn barod i wneud datganiadau cyhoeddus am seilwaith, os oes angen. | |
| **10. Cadernid Rhwydweithiau**<br><br>Rhoddodd y tîm gyflwyniad ar y datblygiadau diweddaraf. Mae Nihal Newman wedi cymryd drosodd oddi wrth Huw Saunders fel Cyfarwyddwr, Diogelwch a Chadernid Rhwydweithiau.<br><br>• Tynnodd y tîm sylw at y ffaith mai'r dyddiad cau galw am dystiolaeth ar gyfer yr ymgynghoriad presennol oedd 1 Mawrth. Dywedodd y Cadeirydd y byddai'r Pwyllgor yn dal i hoffi rhoi mewnbwn ond gofynnodd am estyniad i'r dyddiad cau. Trafododd yr aelodau y meysydd sy'n peri pryder ynghylch diffodd PSTN, colli pŵer i seilwaith a'r ffaith bod pryder nid yn unig yn ymwneud ag argyfyngau iechyd ond hefyd gofal cyffredinol o ddydd i ddydd dros ddefnyddwyr agored i niwed. Cytunodd JR i gysylltu â'r tîm i ofyn am estyniad. Cytunodd y Cadeirydd i gasglu adborth gan Aelodau a darparu tystiolaeth ysgrifenedig ar ran Pwyllgor Cynghori Cymru.<br><br>**Prif bwynt:**<br><br>○ Dywedodd Pwyllgor Cynghori Cymru fod cadernid dyfeisiau symudol yn dyngedfennol yng ngoleuni diffodd VoIP. | JR/ PCC |
| **11. Y Ras Arweinyddiaeth – Prif Weinidog Cymru**<br><br>Croesawodd y Cadeirydd Cathy Owens o Deryn i'r cyfarfod. Rhoddodd gyflwyniad trylwyr ar statws presennol y ras arweinyddiaeth rhwng dau ymgeisydd. Cytunodd PS i ddosbarthu ei sleidiau ar ôl y cyfarfod.<br><br>Disgwylir y bydd y Prif Weinidog newydd yn cael ei gyhoeddi ar 16 Mawrth gydag aelodau'r cabinet yn cael eu cyhoeddi ar 21 Mawrth. Cafwyd trafodaeth ynghylch pwy allai fod yn ymwneud â meysydd gwaith Ofcom a bu dyfalu ynghylch Etholiad Cyffredinol y DU sydd i'w gynnal cyn bo hir. | CO |
| **12. Ymwybyddiaeth o'r Cyfryngau**<br><br>Ymunodd Samina Ali a Fay Lant â'r cyfarfod yn bersonol gan rhoi diweddariad trylwyr ar feysydd gwaith presennol y tîm.<br><br>Tynasant sylw at gynllun peilot sy'n cael ei drefnu yng Nghymru ar hyn o bryd – 'Get RCT Online'. Mae hwn yn cael ei gynnal ar hyn o bryd yn Rhondda Cynon Taf gyda gweithdai dwyieithog wedi'u hanelu at bobl dros 60 oed yn cael eu trefnu dros y 6 wythnos nesaf drwy weminar. Unwaith y bydd y rhain wedi'u cwblhau, cytunodd y tîm i rannu'r canlyniadau â Phwyllgor Cynghori Cymru. Bydd y rhain wedyn yn cael eu gwreiddio yn y gwaith o gyhoeddi cynllun tair blynedd Ofcom. | SA/FL |
| **13. Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyffredinol y Post – trafodaeth yr aelodau**<br><br>Oherwydd y gwrthdystiadau arfaethedig y tu allan i'r Senedd gan ffermwyr ar 28 Chwefror, cytunwyd y dylid aildrefnu digwyddiad Post Ofcom Cymru. EW i roi gwybod am ddyddiad arall. | EW |

| Eitemau ar yr Agenda | Gweithredu |
|---|---|
| **14. Eitemau gwybodaeth** (wedi'u nodi) | |
| **Dyddiad y cyfarfod nesaf:**<br>12 Mehefin 2024, swyddfa Ofcom Cymru. | |